

## BPEC ACS Ailasesiadau Nwy (CENWATI, CKRI, HTRI, METI)



### Yn gryno

Mae'r diwydiant nwy domestig yn cael ei reoleiddio'n llym, gyda'r asesiad yn cael ei ddarparu o dan y Cynllun Achredu Ardystio (ACS). Mae Canolfan Nwy ACS y coleg yn ganolfan BPEC gymeradwy sy'n cynnig amrywiaeth eang o gyrsiau nwy domestig sy'n ddelfrydol ar gyfer plymwyr profiadol. Ar ôl cwblhau'n llwyddiannus, byddwch yn gymwys i wneud cais am gofrestru gyda Gas Safe.

Bydd y cwrs hwn yn eich galluogi i adnewyddu'ch cymwysterau nwy ACS presennol, sy'n ofynnol bob 5 mlynedd.

Ar ôl cwblhau'r asesiadau hyn mewn unedau newydd, byddwch yn gallu ehangu'ch cwmpas gwaith ac yn gallu datblygu'ch gyrfa ym maes y diwydiant nwy.

Mae'r cwrs hwn ar gael fel rhan o Gyfrif Dysgu Personol (PLA). Menter gan Lywodraeth Cymru yw PLA sy'n cynnig cyfle i bobl gael mynediad at gyrsiau rhan-amser am ddim gyda dysgu hyblyg a chyfleus sy'n cyd-fynd â'u ffordd o fyw bresennol (yn ddarostyngedig i gymhwysedd).

**Mae'r cwrs hwn ar gyfer...**



## TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

... unrhyw un dros 19 oed, yn byw yng Nghymru, mewn cyflogaeth ac yn ennill llai na £32,371 y flwyddyn.

...am gymryd y cam nesaf yn eich gyrfa yn y diwydiant nwy.

...unrhyw un sydd eisiau parhau i fod yn Gosodwr Nwy cofrestredig.

### Gofynion Mynediad

I gofrestru ar y cwrs hwn, rhaid i chi naill ai:

Feddu ar dystysgrif ACS gyfredol ac angen asesiad pellach

neu

Feddu ar dystysgrif ACS sydd wedi dod i ben (os yw dros 12 mis, bydd angen asesiad cychwynnol arnoch)

neu

Feddu ar dystysgrif i dystio eich bod wedi cwblhau rhaglen dysgu wedi'i rheoli berthnasol

Rhaid darparu'r dystiolaeth hon i'r ganolfan asesu cyn i chi allu eistedd unrhyw asesiadau.

### Gwybodaeth Ychwanegol

Bydd dyddiadau'r cwrs yn cael eu trafod wrth wneud cais.